

Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27



Trivallis.

Yn unol ag adran 54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae'r datganiad hwn yn esbonio'r hyn rydyn ni wedi'i wneud, a'r hyn y byddwn yn parhau i'w wneud, i sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn ein sefydliad na'n cadwyn gyflenwi.

Trivallis ydyn ni

Mae Trivallis yn gymdeithas tai elusennol sy'n cynnig tai fforddiadwy a gwasanaethau i deuluoedd ac unigolion yn Rhondda Cynon Taf, Bae Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

Rydyn ni'n rheoli dros 10,000 eiddo, gan ddarparu cartrefi i tua 25,000 o bobl, yn ogystal â gwasanaethau cymorth tenantiaid o safon. Rydyn ni'n gyflogwr mawr ac yn gweithio gyda chontractwyr lleol sy'n rhannu ein hymrwymiad i wella lles ein cymunedau a phreswylwyr.

Rydyn ni'n llawer mwy na landlord. Rydyn ni'n gweithredu fel sefydliad Cydfuddiannol Cymunedol

- Yn eiddo i'n tenantiaid
- Cydweithio rhwng tenantiaid, staff, a phartneriaid lleol
- Wedi'n gwreiddio'n gadarn yn ein cymunedau
- Yn cynnwys y bobl y mae ein penderfyniadau'n effeithio arnynt

Cymdeithas Gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymunedol 2014, Rhif Cofrestru: 30261R. Cyfeiriad cofrestredig: **Trivallis, Tŷ Pennant, Stryd y Felin, Pontypridd CF37 2SW.**

Ein strwythur

Mae ein sefydliad wedi'i arwain gan Fwrdd o 14 Cyfarwyddwr anweithredol a 4 aelod annibynnol. Mae ein gweithrediadau o ddydd i ddydd yn cael eu harwain gan y Prif Weithredwr gyda 4 swyddogaeth Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Cymunedau; Cyllid ac Adnoddau; Datblygu, Asedau a Chynaliadwyedd; a Phobl.

Y Bwrdd

Prif Weithredwr

Cyfarwyddwr
Gweithredol
Cymunedau

Atgyweiriadau a
Dirymiadau
Cydymffurfiaeth
Cymunedau

Cyfarwyddwr
Gweithredol
Cyllid ac Adnoddau

Cyllid a Chaffael
Trawsnewidiad TG
Sicrwydd

Cyfarwyddwr
Gweithredol
**Datblygu, Asedau a
Chynaliadwyedd**

Datblygu, Asedau a
Chynaliadwyedd

Cyfarwyddwr
Gweithredol
Pobl

Gwasanaethau Pobl
Iechyd a Diogelwch
Pobl Datblygu
Cyfathrebu



Trivallis.

Ein tenantiaid

Mae ein tenantiaid wrth galon popeth y mae Trivallis yn ei wneud, ac rydyn ni'n gweithio'n galed i'w cadw'n ddiogel ac yn gyfforddus yn eu cartrefi.

Ar ddechrau pob tenantiaeth, rydyn ni'n gwirio bod pobl yn gymwys ac yn gofyn am brawf o hunaniaeth ac unrhyw fudd-daliadau maen nhw'n eu derbyn, fel ein bod ni'n gwybod y gallant ymdopi â a chynnal safon dda o fyw.

Rydyn ni'n dilyn polisi diogelu ac mae gennym hwb diogelu sy'n ein helpu i adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw arwyddion o gam-drin neu esgeulustod.

Rydyn ni hefyd yn cynnal ymweliadau dilynol gyda thenantiaid newydd. Mae ein Swyddogion Tai Cymunedol yn gweithio mewn ardaloedd lleol penodol ledled De-ddwyrain Cymru, sy'n eu helpu i adeiladu gwybodaeth leol gref ac aros yn effro i unrhyw arwyddion y gallai tenantiaid fod mewn perygl, gan gynnwys risgiau fel caethwasiaeth fodern.

Ein staff

Ein nod yw bod yn sefydliad dibynadwy, agored, a chadarnhaol sy'n helpu i wella bywydau a chymunedau pobl.

Er mwyn gwneud hyn, rydyn ni'n gwybod bod angen cefnogi ein staff, trin pawb yn deg, a darparu lle diogel iddyn nhw weithio. Mae hyn yn dechrau gyda recriwtio, lle rydym yn gwirio bod gan bob darpar gyflogai'r hawl i weithio yn y DU.

Rydyn ni hefyd yn dewis talu'r Cyflog Byw, fel y gall ein cyflogeion ennill incwm teg a chael safon byw foddhaol.

Ein polisïau a dogfennau mewnol

Mae gennym ystod o bolisïau mewnol sy'n esbonio sut rydyn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n gweithio mewn ffordd onest ac agored. Mae'r polisïau hyn yn berthnasol i bawb sy'n gweithio i ni neu ar ein rhan.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisi Gwrth-Lwgrwobrwy
- Polisi Recriwtio a Dewis
- Polisi Diogelu Oedolion a Phlant
- Cod Ymddygiad Trivallis
- Ein Gwerthoedd a'n Hymddygiadau
- Polisi Buddiant Cyhoeddus a Datgelu
- Dull Caffael
- Canllawiau Caffael Gwerth Isel



Trivallis.

Ein cyflenwyr a phrosesau diwydrwydd dyladwy

Rydyn ni'n cynnal gwiriadau trylwyr pan fyddwn yn dechrau gweithio gyda chyflenwyr newydd. Mae hyn yn cynnwys adolygu eu telerau ac amodau, a'u polisïau ar lwgrwobrwyo a llygredd, yr amgylchedd, a chaethwasiaeth fodern.

Mae ein safbwynt ar gaethwasiaeth fodern wedi'i ymgorffori ym mhob contract cyflenwr. Rhaid i gyflenwyr gadarnhau bod eu busnes yn dilyn y rheolau hyn a rhaid iddynt ddweud wrthym os ydynt yn dod yn ymwybodol o unrhyw broblemau.

Mae angen iddyn nhw hefyd ddangos eu bod nhw'n bodloni ein gofynion yswiriant gofynnol a bod ganddyn nhw sgôr credyd da, wedi'i wirio gan drydydd parti annibynnol.

Fel rhan o weithio gyda ni, rhaid i gyflenwyr gadarnhau:

1. Bod y wybodaeth a roddon nhw i ni am wiriadau caethwasiaeth a masnachu pobl yn gyflawn ac yn gywir.
2. Nad ydyn nhw, nac unrhyw un sy'n gysylltiedig â nhw, wedi cael eu heuogfarnu o droseddau sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth na masnachu pobl, ac nad ydyn nhw o dan ymchwiliad am hyn.
3. Eu bod yn cynnal eu gwiriadau eu hunain ar ein cyflenwyr a'u his-gontractwyr i wneud yn siŵr nad oes unrhyw gaethwasiaeth na masnachu pobl yn eu cadwyni cyflenwi.
4. Eu bod yn deall y gallwn ni ddod â'r contract i ben os nodir unrhyw achosion o gaethwasiaeth fodern.

Ein hasesiad a'n rheolaeth risg

Rydyn ni'n cydnabod y gall tai cymdeithasol fod mewn mwy o berygl o gael ei ddefnyddio ar gyfer caethwasiaeth fodern, felly rydyn ni'n gweithio'n galed i adeiladu gwybodaeth a chysylltiadau lleol cryf i helpu i gadw ein tenantiaid yn ddiogel.

Mae gennym ni Bwyllgor Sicrwydd ac rydyn ni'n cynnal cofrestr fyw lle gellir cofnodi ac olrhain unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau. Mae hon yn cael ei diweddarau'n rheolaidd. Os byddwn yn clywed am achosion posib o gaethwasiaeth fodern yn yr ardal, er enghraifft drwy'r cyfryngau neu adroddiadau'r heddlu, byddwn yn eu hychwanegu at y gofrestr fel y gallwn ymchwilio iddynt ymhellach.

Rydyn ni hefydd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ar gaffael a rheoli contractau i adolygu perfformiad a rheoli unrhyw risgiau.



Trivallis.

Ein dangosyddion perfformiad allweddol

Rydyn ni'n defnyddio'r mesurau canlynol i fodloni gofynion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, ac rydyn ni'n eu hadolygu bob blwyddyn:

- Rhaid i bob cyflenwr gwerth uchel gytuno i ddilyn y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, naill ai drwy eu datganiad eu hunain neu drwy lofnodi datganiad.
- Mae pob cyflenwr yn cael ei wirio yn erbyn y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern cyn i ni ddechrau gweithio gyda nhw.
- Mae pob aelod o staff yn cael gwybod am gaethwasiaeth fodern pan fyddant yn dechrau a gofynnir iddynt ddarllen a deall ein canllawiau. Rydyn ni hefyd yn cyflwyno gofyniad newydd i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant diogelu, gan gynnwys caethwasiaeth fodern, o fewn eu mis cyntaf.

Ein hyfforddiant

Rydyn ni'n darparu hyfforddiant i bob aelod o staff i'w helpu i ddeall risgiau caethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Mae hyn yn eu helpu i adnabod yr arwyddion a gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon.

Byddwn yn parhau i feithrin ymwybyddiaeth staff, yn enwedig o fewn ein cadwyni cyflenwi.

Cymeradwyaeth y datganiad

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr **ar 30 Gorffennaf 2026.**



Nick Beckett
Cadeirydd Bwrdd Trivallis

